# SL(6)556 - [Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024]

## Cefndir a diben

Mae adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn darparu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i'w gwneud i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdod cynllunio lleol.

Mae paragraff 1 o Atodlen 4D i Ddeddf 1990, oni bai y rhoddir cyfarwyddyd fel arall o dan baragraff 9, yn galluogi i swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chais (neu gais arfaethedig) am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gael eu cyflawni gan berson a benodir i wneud hynny ar eu rhan.

Mae'r swyddogaethau penodedig yn cael eu rhagnodi yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Yn benodol, mae rheoliad 11A o Reoliadau 2016 yn rhagnodi swyddogaethau penodedig mewn cysylltiad â phenderfynu ceisiadau ar gyfer gosod llinellau trydan uwchben.

Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau") yn diwygio rheoliad 11A fel bod y swyddogaethau ychwanegol a ragnodir yn y rheoliad hwnnw hefyd yn cael eu harfer mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau ar gyfer adeiladu, addasu neu estyn gorsafoedd cynhyrchu trydan, pan ddisgwylir i'r gallu cynhyrchu gosodedig, neu'r cynnydd yn y gallu cynhyrchu gosodedig, fod yn is na 50 megawat.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau Ffioedd 2024"), a gafodd eu trafod a'u cymeradwyo gan y Senedd ar 10 Rhagfyr 2024.

Ymhlith materion eraill, nododd adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Ffioedd 2024 fod craffu yn cael ei wneud yn anos gan y ffaith na chafodd y ddwy set o Reoliadau eu gosod gerbron y Senedd ar yr un pryd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu Memorandwm Esboniadol cyfansawdd ar gyfer y ddwy set o Reoliadau, yn egluro mai dim ond ar ôl i'r Senedd gymeradwyo Rheoliadau Ffioedd 2024 y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud a'u gosod.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, gosododd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau hyn yn gynharach nag a fwriadwyd yn wreiddiol, a chyn y ddadl yn y Senedd ar Reoliadau Ffioedd 2024.

Hefyd, tynnodd Llywodraeth Cymru y Memorandwm Esboniadol cyfansawdd yn ôl a'i ailosod, a bellach mae'n darparu fel a ganlyn ym mharagraff 2.1:

> *Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024, mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 wedi'u gosod yn gynharach nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Y bwriad yw y bydd y ddwy set o Reoliadau yn dod i rym ar 6 Ionawr 2025.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Rhagfyr 2024**